

CALON TÂN



Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service



CRYNODEB
BLYNYDDOL

UCHAFBWYNTIAU 2023

CYNNWYS

IONAWR	4
CHWEFROR	6
MAWRTH	8
EBRILL	10
MAI	12
MEHEFIN	14
GORFFENNAF	16
AWST	18
MEDI	20
HYDREF	22
TACHWEDD	24
RHAGFYR	26



GTACGC
MAWFRS
CLWB CHWARAEON A CHYMDEITHASU
SPORTS & SOCIAL CLUB

Dewch i ymuno
HEDDIW
Become a member
TODAY

I gael rhagor o wybodaeth am y Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol, anfonwch neges e-bost

For further information regarding the Sports & Social Club, please contact

Steve Philpott - S.philpott@mawwfire.gov.uk

Mae'r Clwb Chwaraeon a Chymdeithasu yn agored i holl aelodau presennol y Gwasanaeth, a'r aelodau sydd wedi ymddeol.

The Sports and Social Club is open to all current and retired members of the Service.

LANSIO FIDEO MWY NA DIM OND TANAU

Yn gynharach eleni, gwnaeth Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin lansio ei ymgyrch fideo, #MwyNaDimOndTanau, sy'n taflu goleuni ar y gwasanaethau amrywiol y mae'n eu darparu, yn ogystal â'i ymroddiad a'i ymrwymiad parhaus i sicrhau diogelwch y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.

Wedi'i ffilmio dros flwyddyn mewn gwahanol orsafoedd, digwyddiadau, ac ym mhencadlys y Gwasanaeth, mae'r fideo Mwy Na Dim Ond Tanau yn dangos gweithrediadau ein Gwasanaeth o ddydd i ddydd, yn ogystal â'r hyfforddiant parhaus a wneir i sicrhau bod y gwasanaeth gorau posibl yn cael ei ddarparu i gadw ein cymunedau'n ddiogel.

Yn ogystal â chefnogi ymgyrchoedd recriwtio rheolaidd y Gwasanaeth ar gyfer amrywiaeth o rolau


diffodd tân, cymorth ac ar gyfer y ganolfan reoli, bydd y fideo ymgyrch hefyd yn helpu i addysgu a datblygu perthnasoedd â phartneriaid presennol a newydd.

Rydym yma ar eich cyfer chi ac yma ar gyfer #MwyNaDimOndTanau.

Wrth lansio'r fideo ymgyrch newydd hwn, dywedodd Roger Thomas, y Prif Swyddog Tân:

"Mae'r ymgyrch hon yn amlygu gweithgareddau atal, amddiffyn ac ymateb y Gwasanaeth, yn ogystal ag ymroddiad parhaus ein staff, a bydd yn dod â'n holl waith gwych i gynulleidfa oedd newydd."

"Ar ran y Gwasanaeth, hoffwn ddiolch yn ddiffuant i Optimwm am weithio gyda ni ar y prosiect hwn."



GWYLIWCH Y FIDEO

ACHUB MAUDE Y CI!

Yng nghanol mis Ionawr, gwnaeth criw Pontardawe achub ci o'r enw Maude, oedd yn gaeth mewn ceunant ar fynydd Graig-y-Pal.

Gwnaeth Maude a dau gi arall syrthio i lawr ceunant 3m o ddyfnder ar ddamwain, tra bod y cŵn eraill wedi gallu dianc, nid oedd Maude wedi gallu.

Defnyddiodd criwiau offer achub rhaffau i achub Maude a'i haduno gyda'i pherchennog.

Gwaith arbennig!



DIFFODDWYR TÂN O GYMRU WEDI CAEL EU HANFON I DWRCI I GYNORTHWYO Â GWEITHREDIADAU CHWILIO AC ACHUB

Five firefighters from Mid and West Wales Fire and Rescue Service and South Wales Fire and Rescue Service were deployed to Türkiye to assist with search and rescue operations following the devastating earthquakes.

Gwnaeth pum diffoddwr tân o Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru eu hanfon i Dwrci i gynorthwyo â gweithrediadau chwilio ac achub yn dilyn y daegrynfydd dinistriol.



Cyrhaeddodd tîm o 77 o arbenigwyr Chwilio ac Achub Rhyngwladol y DU (UKISAR), yn cynnwys diffoddwyr tân a staff o 14 o Wasanaethau Tân ac Achub Dwrci ddydd Mawrth, Chwefror 7fed. Buon nhw'n darparu sgiliau a chyfarpar arbenigol i helpu i ddod o hyd i oroeswyr a'u hachub, a chawsant eu hanfon trwy'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu.

Wedi'u hanfon o Dde Cymru oedd Rheolwr Criw, Emma Atcherley o Orsaf Ganolog Caerdydd, y Diffoddwr Tân, Luke Davison o Orsaf Malpas a'r Diffoddwr Tân, Robert Buckley o Orsaf Trelái. Wedi'u hanfon o Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru oedd Pennaeth Ymateb Rhanbarth y De, Steve Davies a'r Rheolwr Gwylfa, Phil Irvin o Orsaf Hwlfordd, Rhanbarth y Gorllewin.

Roedd gan y tîm gyfarpar chwilio arbenigol, gan gynnwys dyfeisiau gwrando seismig, cyfarpar torri a malu concrit a chyfarpar cynnal.

ERTHYGL LLAWN

YN CYDWEITHIO I DDIOGELU EIN CEFN GWLAD A'N GWLAD

Mae Ymgyrch Dawns Glaw, sy'n dasglu amlasiantaethol o arbenigwyr o asiantaethau allweddol ledled Cymru, wedi ailffurfio i leihau, a lle bo hynny'n bosibl, i ddileu effaith tanau glaswellt ledled Cymru.

Bydd y tasglu, a sefydlwyd yn wreiddiol yn 2016 gan y Bwrdd Strategol ar gyfer Atal Tanau Bwriadol yng Nghymru i fynd i'r afael ag achosion o gynnu tanau glaswellt yn fwriadol ledled Cymru, hefyd yn rhoi sylw i'r cynnydd mewn tanau damweiniol, a achosir yn aml gan ein hymddygiad diofal ein hunain pan fyddwn allan yn mwynhau yng nghefn gwlad.

Yn 2022, ymatebodd y gwasanaethau tân ledled Cymru i 3,269 o danau glaswellt – roedd hyn yn gynydd o 62% ar y flwyddyn flaenorol, gyda nifer y tanau glaswellt bwriadol yn cynyddu 1542 (47%) i 2263. Roedd y cynnydd yn bennaf oherwydd y tywydd sych a phoeth ym mis Gorffennaf a mis Awst, a arweiniodd at ail gynydd yn nifer y digwyddiadau, yn ogystal â gweithgarwch Mawrth/Ebrill.



ERTHYGL LLAWN

DIFFODDWR TÂN ODDI AR DDYLETSWYDD YN RHOI CPR

Ddydd Gwener, 3 Chwefror, rhoddodd Diffoddwr Tân o Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, a oedd oddi ar ddyletswydd, CPR i ddyn a oedd yn cael ataliad y galon, gan achub ei fywyd.

Roedd Lee Murray, sy'n Rheolwr Criw yng Ngorsaf Dân Doc Penfro, yn mwynhau ei arfer boreol o nofio yng Nghanolfan Hamdden Penfro, pan sylwodd ar gynnwrf wrth ymyl y pwll nofio. Wrth adael y pwll i weld beth a oedd yn digwydd, gwelodd Lee achubwyr bywyd yn helpu dyn a oedd wedi syrthio ac a oedd yn profi ataliad y galon.



ERTHYGL LLAWN



KIA SPORTAGE SY'N TORRI TIR NEWYDD YN YMUNO Â'R GWASANAETH

Mae pum cerbyd Kia Sportage Allyriadau Isel lawn wedi cael eu hymgorffori yn fflyd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, gyda systemau rhybuddio ymateb brys arbennig wedi cael eu gosod ynddynt.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) yn gyfrifol am ddarparu gwybodaeth am ddiogelwch i'r cyhoedd, rhaglenni atal ac amddiffyn, ac ymatebion brys yn ardal Canolbarth a Gorllewin Cymru, gan gwmpasu yn agos at 12,000 cilometr – bron dau draean o Gymru. Mae gan GTACGC 58 o orsafoedd ar draws chwe sir, ac mae'n ymateb i tua 255 o ddiogwyddiadau bob wythnos ar gyfartaledd.

Prynwyd y pum Kia Sportage PHEV 'GT-Line' ac arnynt baent isgoch trawiadol, gan yr arbenigwr busnes, Gravells Kia ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Yn rhan o'r broses ddethol, profwyd nifer o gerbydau gwahanol, a'r Kia Sportage a oedd yn cynnig y cyfuniad gorau o ymarferoldeb, perfformiad a darbodaeth i ddiwallu anghenion y Gwasanaeth.

Fel y cadarnhaodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân, Iwan Cray:

"Mae'r Gwasanaeth yn parhau i amlygu ei ymrwymiad parhaus i leihau ei effaith ar yr amgylchedd trwy ehangu'r defnydd o Gerbydau Allyriadau Isel lawn (ULEV) lle bo modd. Mae'r fenter hon yn rhan o amcan ehangach y Gwasanaeth i weithio tuag at Statws Carbon Sero Net erbyn 2030."

ERTHYGL LLAWN



CYNLLUN GWELLA BUSNES BLYNYDDOL 2023-2024

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi cyhoeddi cynllun newydd, sef Cynllun Gwella Busnes Blynyddol 2023-2024, sydd wedi'i gynllunio i helpu i gyflawni ein gweledigaeth, ein cenhadaeth, ein gwerthoedd a'n hymrwymadau, a nodir yn ein Cynllun Strategol ar gyfer 2022-2027.

Mae'r Cynllun yn amlinellu pum Amcan Gwella a Llesiant a gyflawnir yn ystod y 12 mis nesaf, ac a fydd yn ffocysu ar:

- Ddatblygu ein pobl a chreu gweithle amrywiol sy'n ddeniadol i ymuno ag ef;
- A hynny gan edrych ar ffyrdd newydd o gael effaith gadarnhaol ar ein cymunedau;
- Parhau ar ein taith tuag at ddod yn Sero Net erbyn 2030;
- Ymgorffori cyfleoedd i gipio, cyfathrebu a gweithredu pob agwedd ar ddysgu sefydliadol;
- Pharhau â'n gwaith o ddatblygu gwelliannau, amcanion a mentrau sy'n canolbwyntio ar reoli risg gymunedol.

Dywedodd y Cyngorydd Elwyn Williams, Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru:

"Rydym wedi ymrwmo i fuddsoddi yn ein pobl ac i wneud y defnydd gorau o'n hasedau a'n hadnoddau, gan ofalu bod ein staff yn y sefyllfa orau i ddelio ag argyfyngau ac i sicrhau gwell diogelwch ar eu cyfer eu hunain ac ar gyfer y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu."

Dywedodd y Prif Swyddog Tân, Roger Thomas:

"Rydym yn falch iawn o gyflwyno Cynllun Gwella Busnes Blynyddol 2023-2024. Rydym yn hyderus y bydd ein Hamcanion Gwella a Llesiant yn ein galluogi i gyflawni ein dyletswyddau statudol a chyfrannu at ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015."

ERTHYGL LLAWN

GWOBR RHAGORIAETH AUR CYMRU IACH AR WAITH

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) wedi llwyddo i ennill achrediad Safon Aur gan Cymru Iach ar Waith.

Nod rhaglen Cymru Iach ar Waith yw cefnogi ac annog cyflogwyr i greu amgylcheddau gweithio iach, cymryd camau i wella iechyd a llesiant eu staff, rheoli absenoldebau oherwydd salwch, ac ymgysylltu â chyflogeion mewn modd effeithiol. Gall hyn oll helpu i gyflawni amrywiaeth o ganlyniadau cadarnhaol ar gyfer busnesau a sefydliadau.

Da iawn Sarah Davies a Seamus Doyle o dîm Risgiau Corfforaethol GTACGC am eu hymroddiad i gwblhau'r broses.



PARÊD CWBLHAU HYFFORDDIANT CADETIAID TÂN

Ar Ebrill 24, cynhaliwyd Parêd Cwblhau Hyfforddiant yng Ngorsaf Dân y Drenewydd i ddathlu llwyddiannau carfan ddiweddaraf Cadetiaid Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Nod y Rhaglen Cadetiaid Tân yw creu cymunedau mwy diogel trwy ddatblygu gwybodaeth pobl ifanc a meithrin eu hymwybyddiaeth o bwysigrwydd cadw'n ddiogel rhag tân. Mae Cadetiaid Tân yn dysgu sut i gadw eu hunain ac eraill yn ddiogel trwy ddeall peryglon, risgiau a mesurau rheoli, sut i ddefnyddio cyfuniad o gyfarpar diffodd tân, megis pibellau, ysgolion, a driliau tîm. Maent hefyd yn mynd i ddigwyddiadau yn y gymuned ac yn cymryd rhan ynddynt, ac yn dysgu sut i fod yn aelodau cadarnhaol a gweithgar o'u cymunedau.

Dywedodd Prif Swyddog Tân GTACGC, Roger Thomas, a oedd yn bresennol yn y parêd:

"Rwy'n falch iawn o fod yma yng Ngorsaf y Drenewydd i gydnabod llwyddiannau ein cadetiaid anhygoel heno. Mae eu gwaith caled a'u penderfyniad yn ysbrydoledig, ac rwy'n siŵr y bydd y sgiliau a'r hyder y maent wedi'u dysgu yn ystod y rhaglen hon nid yn unig yn helpu eu datblygiad yn y dyfodol, ond hefyd yn cadw ein cymunedau'n fwy diogel!"

Dywedodd Cydlynnydd y Cadetiaid Tân, Karen Mayze:

"Hoffwn longyfarch Cadetiaid Tân y Drenewydd yn fawr iawn. Rwy'n hynod falch ohonynt i gyd, yn cwblhau eu hyfforddiant a rhaglen y Cadetiaid, ac yn ennill eu Gwobr Efydd. Maent yn fodolau rôl i'r gymuned ac yn bobl ifanc ysbrydoledig."

GWASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU YN MYNYCHU'R CORONI

Cynhaliwyd Coroni Eu Mawrhydi'r Brenin Siarl III a'r Frenhines Camilla yn Abaty Westminster ddydd Sadwrn 6 Mai, y Gwasanaeth Coroni cyntaf ers bron i 70 mlynedd.

As part of the day's processions, over 1,000 Armed Forces route liners from all three Services and Standard Bearers of the Royal British Legion, Uniformed Civilian Services (UCS) and Community Organisations were involved.

Representing Mid and West Wales Fire and Rescue Service (MAWWFRS) at the Coronation and forming part of the UCS was Head of Training Delivery, Stuart Bate, following a nomination by MAWWFRS Chief Fire Officer, Roger Thomas.



ERTHYGL LLAWN


PARTNERIAETH Y GWASANAETH GYDA GUIDE DOGS UK

Ddydd Iau, Mai 18fed, gwnaethom groesawu'r Bonnie hyfryd, ci tywys saith mis oed dan hyfforddiant, i Bencadlys ein Gwasanaeth!

Yn ogystal â dod â gwên i aelodau o staff ein pencadlys, roedd yr ymweliad hwn yn rhan o bartneriaeth ddiogelu ehangach gyda Guide Dogs UK i uwchsgilio ein timau Gwasanaeth sy'n gweithio gyda phobl â nam ar eu golwg yn y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.



ERTHYGL LLAWN



EISTEDDFOD YR URDD 2023

Wedi eu gweld AR Y MAES



MEHEFIN



MAE'R HER FAWR WEDI'I CHWBLHAU!

Ar 5 Mehefin 2023, cychwynnodd 12 aelod o Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ar her feicio epig, a fyddai'n rhoi eu cryfder corfforol a meddyliol ar brawf!

Beiciodd y tîm ychydig llai na 1000 o filltiroedd dros 10 diwrnod ledled y DU ar daith eiconig o Land's End yng Nghernyw, pwynt mwyaf de-orllewinol Prydain i John O'Groats yng Ngogledd yr Alban. Llwyddon nhw i feicio cyfartaledd o 100 milltir y dydd, pasio trwy dair gwlad a dringo 59 mil troedfedd!

Eu nod oedd codi £10,000 fyddai'n cael ei rannu rhwng tair elusen oedd yn agos at eu calonnau. Nid yn unig y gwnaethon nhw gyflawni'r hyn roedden nhw'n bwriadu ei wneud ond maen nhw wedi chwalu'r targed a hyd yn hyn wedi codi swm aruthrol o £14,701! Y cyfan er budd:

- The Firefighters Charity
- Parlys yr Ymennydd Cymru
- 2 Wish



ERTHYGL LLAWN

HER DIFFODDWYR TÂN CYMRU 2023 - LLWYDDIANT YSGUBOL!

Ar 3 Mehefin, ymgasglodd Diffoddwyr Tân o bob rhan o'r DU, yr Almaen a Kuwait yng Nghanol Dinas Abertawe i gymryd rhan yn Her Diffoddwyr Tân Cymru, sy'n rhan o ras ranbarthol Her Diffoddwyr Tân Prydain. Mae'r digwyddiadau hyn yn codi arian pwysig ar gyfer Elusen y Diffoddwyr Tân sy'n cefnogi anghenion iechyd meddwl a chorfforol Teulu Tân y DU.

Roedd pob cystadleuydd wedi'i wisgo mewn cit diffodd tân strwythurol llawn ac yn cymryd rhan mewn cyfres o heriau corfforol a gynlluniwyd i brofi eu cryfder, eu hystwythder a'u stamina, ynghyd ag arddangos eu sgiliau diffodd tân i'r torfeydd o wylwyr. Roedd cyfanswm o 8 her yr oedd yn rhaid eu cwblhau yn llawn, yn yr amser cyflymaf i ennill y ras, ac yn cynnwys rhedeg 50m, llusgo dymi, cario cynhwysydd a mwy.



ERTHYGL LLAWN



LAWNSIAD SIARTER TANAU GWYLLT CYMRU

Lansiwyd Siarter Tanau Gwyllt cyntaf Cymru yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru, Llanelwedd, Ddydd Llun 24 Gorffennaf 2023.

Dyweddodd Iwan Cray, Cadeirydd Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru a Dirprwy Brif Swyddog Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru:

“Mae ein Siarter Tanau Gwyllt newydd wedi'i seilio ar wybodaeth a phrofiad y mae'r partneriaid ar y Bwrdd wedi'u hennill dros y degawd diwethaf wrth iddynt fynd i'r afael ag effaith tanau gwyllt ledled Cymru.

“O dan ymagwedd gydweithredol Bwrdd Lleihau Tanau Bwriadol Strategol, rydym wedi gweld llwyddiannau sylweddol, a gyflawnwyd trwy lawer iawn o benderfyniad a gwaith caled gan yr holl asiantaethau dan sylw. Fodd bynnag, mae tanau gwyllt ledled Cymru yn parhau i beri perygl clir a phresennol i'n hamgylchedd, ein heconomi a'n

cymunedau. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweld yr arwyddion cynnar o lwyfannu yn nifer y digwyddiadau, gan nodi bod angen dull newydd i sicrhau y gallwn ddelio â'r heriau sy'n dod i'r amlwg yr ydym yn eu hwynebu.”

Dyweddodd Andrew Wright, Cadeirydd Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru ac Uwchgyngorydd Arbenigol – Iechyd Planghigion a Throsoglwyddo Gwybodaeth gyda Chyfoeth Naturiol Cymru:

“Mae ein siarter tanau gwyllt wedi'i llunio o amgylch tair thema allweddol, pob un wedi'i chynllunio i sicrhau ein bod yn gallu canolbwyntio ar y meysydd hynny sydd nid yn unig angen y sylw mwyaf, ond a fydd hefyd yn cael y dylanwad mwyaf o ran gwella ein dealltwriaeth o danau gwyllt a sut y gall y Bwrdd reoli eu heffaith mewn ffordd gadarnhaol.”



Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru
Wales Wildfire Board



ERTHYGL LLAWN

MENTER DŴR ARLOESOL GWASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn arwain menter arloesol i ddefnyddio dŵr gwastraff wedi'i drin i daclo tanau.

Dyma'r tro cyntaf i Gymru wneud hyn a thrwy weithio mewn partneriaeth â Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) yn treialu'r defnydd o elifiant dŵr wedi'i drin ag uwchfioled (UV trydyddol) mewn digwyddiadau tân y mae'r Gwasanaeth yn mynd iddynt, fel dewis amgen i ddŵr yfed a ffynonellau dŵr eraill.



ERTHYGL LLAWN

UCHEL-SIRYFION YN YMWELD Â PHENCADLYS Y GWASANAETH

Ddydd Mawrth, 18 Gorffennaf, croesawyd Uchel Siryfion Dyfed, Powys, a Gorllewin Morgannwg - y Mri Meurig Raymond, Reg Cawthorne, ac Alan Brayley yn y drefn honno, i bencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC).

Mae pob un o'r tri Uchel Siryf 3 mis i mewn i'w tymor blwyddyn o hyd ac yn gefnogwyr brwd i'r gwasanaethau brys. Roedden nhw'n awyddus i ddysgu mwy am sut rydyn ni'n gweithio a'r cymorth rydyn ni'n ei ddarparu i'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu.



ERTHYGL LLAWN

GEMAU CADETIAID TÂN 2023!

Ar Ddiwrnod Rhyngwladol Ieuencid, a gynhelir eleni ar ddydd Sadwrn 12 Awst, bydd ein Cadetiaid Tân yn mynychu'r Gemau Cadetiaid Tân yng Nglannau Merswy, gan ymuno â mwy na 170 o Gadetiaid Tân o bob cwr o'r DU.

Cymerodd y Cadetiaid ran mewn gweithgareddau sy'n adlewyrchu'r hyn y mae pobl ifanc yn ei wneud yn eu huned Cadetiaid Tân, gan gynnwys achub o'r dŵr, archwiliadau diogelwch tân yn y cartref, ymgysylltu â'r cyhoedd, cyflwyniad, senarios cymorth cyntaf, a'r prif ddigwyddiad, sef ras gyfnewid y Gwasanaeth Tân. penwythnos.

Fel Gwasanaeth, hoffem ddweud llongyfarchiadau a diolch i'r holl Gadetiaid a'r Hyfforddwyr am eu hymrwymiad a'u hymroddiad i'r penwythnos, ac am yr amser y maent yn ei roi i'r cynllun Cadetiaid Tân.



ERTHYGL LLAWN

CAROLYN HARRIS AS YN CYNNAL SGWRS AR Y MENOPOS YNG NGORSAF DÂN TREFORYS

Ddydd Gwener, Awst 4ydd, fe wnaeth Carolyn Harris, Aelod Seneddol Dwyrain Abertawe, ymweld â Gorsaf Dân Treforys i gyflwyno sgwrs addysgiadol ac ysbrydoledig ar y testun 'Menopos yn y Gwaith'.

Yn ystod y sesiwn, siaradodd Carolyn Harris AS, sydd hefyd yn Gadeirydd y Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar y Menopos, yn agored ac yn onest am ei phrofiad hi ei hun o'r perimenopos, gan gynnwys yr effeithiau y mae'r menopos yn gallu eu cael ar fywydau menywod yn y cartref ac yn y gwaith. Siaradodd hefyd am y cymorth a'r triniaethau sydd ar gael.



ERTHYGL LLAWN

SIOE FRENHINOL CYMRU 2023

Wedi eu gweld YN Y SIOE



DIWRNOD AGORED PENCADLYS Y GWASANAETH

Croesawodd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru gannoedd o bobl i'w Bencadlys a Diwrnod Agored Gorsaf Dân Caerfyrddin ddydd Gwener, 1 Medi.

Rhoddodd y Diwrnod Agored brofiad y tu ôl i'r llenni i'r ymwelwyr yng Ngorsaf Dân Caerfyrddin, drwy amrywiaeth o arddangosiadau, megis cŵn chwilio ac achub a thanau sosban sglodion, a gweithgareddau fel peintio wynebau a reidiau ysgol trofwrdd – a sicrhodd bod pawb wedi cael diwrnod gwych. Roedd pwyslais sylfaenol y diwrnod yn ymwneud â diogelwch cymunedol a chodi arian at ddau achos teilwng – Elusen y Diffoddwyr Tân a 2wish.

ERTHYGL LLAWN



**DROS £3,000 WEDI'I CODI DRWY
GWEITHGAREDDAU Y DIWRNOD
AGORED!**

GOSOD DIFFIBRILWYR MYNEDIAD CYHOEDDUS YN EIN GORSAFOEDD TÂN

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) yn gweithio mewn partneriaeth ag Achub Bywyd Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i gynyddu nifer y diffibrilwyr mynediad cyhoeddus sy'n achub bywydau.

By working in partnership, MAWWFRS and SALC have identified 22 Fire Stations that do not have a public access defibrillator (PAD) within 500 metres and are working to correct this. During MAWWFRS's Headquarters Open Day on Friday, September 1st, the PAD rollout programme was officially launched, with the first unit being unveiled at Carmarthen Fire Station.



ERTHYGL LLAWN

JANE DODDS AS YN YMWELD Â GORSAF DÂN Y DRENEWYDD

Ddydd Llun, Awst 21ain, ymwelodd yr AS Jane Dodds, yr Aelod Seneddol dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru, â Gorsaf Dân Y Drenewydd i gwrdd â'r criw yn ogystal

ag aelodau o'r grŵp lleol 'Knit and Natter Newtown'.

Yn ddiweddar mae'r grŵp 'Knit and Natter' wedi bod yn brysur yn creu casgliad o dedi bêrs lliwgar, pob un â'i gymeriad unigryw ei hun. Y syniad yw rhoi'r dedis i blant sy'n gysylltiedig â digwyddiadau, a allai fod yn teimlo bod y profiad yn llethol ac yn frawychus.

ERTHYGL LLAWN



PWYNTIAU GWEFRU CERBYDAU TRYDAN NEWYDD YM MHENCADLYS Y GWASANAETH TÂN AC ACHUBS

Fel rhan o'i ymrwymiad i gyflawni Statws Carbon Sero Net erbyn 2030, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) wedi gosod pwyntiau gwefru newydd ar gyfer cerbydau trydan yn ei bencadlys.

Gan adeiladu ar berthynas gadarnhaol sy'n bodoli eisoes, mae GTACGC wedi gweithio mewn partneriaeth â Pod Point, un o ddarparwyr seilwaith gwefru cerbydau trydan mwyaf blaenllaw'r DU sydd â dros 9,200 o gulfannau gwefru cyhoeddus.

Mae'r cyfleusterau gwefru Pod Point newydd, a osodwyd ym mis Gorffennaf 2023, yn cynnwys dau bwynt gwefru cyflym 150kW a dau bwynt gwefru dwbl 22kW, sy'n gallu gwefru hyd at wyth cerbyd ar un adeg, yn ogystal ag isorsaf 33,000-folt newydd i gyflenwi'r pŵer angenrheidiol ar gyfer y seilwaith gwefru.

Bydd y seilwaith gwefru newydd hwn nid yn unig yn darparu ar gyfer cerbydau trydan, ond bydd hefyd yn caniatáu ar gyfer ehangu yn y dyfodol.

ERTHYGL LLAWN

BGC ABERTAWE - CERDDED YN EIN HESGIDIAU

Dydd Mawrth, 17 Hydref, cynhaliodd y Prif Swyddog Tân Roger Thomas ddigwyddiad 'Cerdded yn ein hesgidiau' fel rhan o Gynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe, gan wahodd aelodau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe a phartneriaid cymunedol i'n Cyfleuster Hyfforddi yn Earlswood.

Trefnwyd y digwyddiad i ehangu ymwybyddiaeth o waith ein partneriaid a gwella rhwydweithiau, yn enwedig ymhlith y rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'n cymunedau. Roedd y digwyddiad yn canolbwyntio ar dri phrif faes y Gwasanaeth: Ymateb Gweithredol, Atal (Diogelwch Cymunedol) ac Amddiffyn (Amgylchedd Adeiledig).



ERTHYGL LLAWN

CRIWIAU CASTELL-NEDD A PHONTARDAWE YN ACHUB DIWRNOD PRIODAS

Ddydd Sadwrn, Hydref 7fed, cafodd criwiau Castell-nedd a Phontardawe o Wasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru eu galw i ddigwyddiad yng Ngwesty Glyn Clydach ym Mryncoch, Castell-nedd.

Ymatebodd criwiau i dân o fewn cwpwrdd storio bach yn nerbynfa'r gwesty. Fe wnaeth y criwiau diffodd y tân, awyru'r ardal a thawelu'r panel larwm tân.

Achoswyd y tân gan ffyn gwreichion a oedd yn cael eu storio y tu mewn i'r cwpwrdd, yn barod ar gyfer seremoni briodas Sarah a Luke Jones yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw, a chafodd y ddau ddechrau annisgwyl iawn i ddiwrnod eu priodas!



ERTHYGL LLAWN

GWOBRAU MWY NA DIM OND TANAU 2023: DATHLU GWAITH CALED AC YMRODDIAD

Ddydd Gwener, Tachwedd 10, cynhaliodd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ei Seremoni Wobrwyo flynyddol Mwy Na Dim Ond Tanau yng Ngwesty a Sba y Metropole yn Llandrindod.

Llywyddwyd y noson gan y dyfarnwr sydd â'r nifer fwyaf o gapiau yn y byd rygbi, Nigel Owens MBE, ac roedd yn gyfle arbennig i ddiolch a chydabod ymdrechion rhyfeddol, gwaith caled ac ymroddiad staff y Gwasanaeth a gwirfoddolwyr o bob rhan o ardal y Gwasanaeth dros y 12 mis diwethaf.

Roedd y seremoni'n cynnwys cyfanswm o 11 categori ar gyfer gwobrau, a ddyfarnwyd i unigolion a thimau a enwebwyd gan eu cyfoedion a'u cydweithwyr, gan gynnwys gwobr am Gyfraniad Eithriadol, Hyrwyddwr Elusen a Gwobr Dewrder y Prif Swyddog Tân, ymhlith eraill.

ERTHYGL LLAWN



TAIR CENHEDLAETH O DDIFFODDWYR TÂN: DROS 73 MLYNEDD O WASANAETH

Mae gwaith tîm a diogelu ein cymunedau wrth galon popeth a wnawn yng Ngwasanaeth Tân

ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, ac mae hyn wedi'i amlygu gan y teulu Jones o Gastellnewydd Emlyn.

Mae tair cenhedlaeth o'r teulu - Gareth, Emyr a Cian - wedi gwasanaethu fel diffoddwyr tân yng Ngorsaf Dân Castellnewydd Emlyn, gyda chyfanswm rhyngddynt o dros 73 mlynedd o wasanaeth ac ymroddiad hyd yma - ac mae'r rhif hwnnw'n dal i godi!

ERTHYGL LLAWN

WYTHNOS YMWYBYDDIAETH CARBON MONOCSID 2023 #COFIORHYS

Fel rhan o Wythnos Ymwybyddiaeth Carbon Monocsid 2023, fe rannon ni stori drasig Rhys Sheridan ar ein cyfryngau cymdeithasol - #CofioRhys.

Gofynnodd teulu Rhys i ni rannu eu stori ddirdynnol er mwyn tynnu sylw at bwysigrwydd cael larwm carbon monocsid sydd yn gweithio.



ERTHYGL LLAWN

GWASANAETH CAROLAU Y GWASANAETH 2023

Nos Iau, Rhagfyr 14eg, cynhaliodd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) ei Gwasanaeth Carolau elusenol blynyddol yn Eglwys Crist, Caerfyrddin.

Roedd y noson yn cynnwys amrywiaeth o garolau Nadoligaidd, darlenniadau gan staff GTACGC a pherfformiadau gan y gantores gwadd Einir Dafydd gyda'r gitarydd Dafydd Jones, yr Osgordd Baneri a Chôr y Gangen o Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.



ERTHYGL LLAWN



GWOBR ARLOESED I SEAMUS DOYLE

Llongyfarchiadau i Reolwr Iechyd, Diogelwch a Lles y Gwasanaeth, Seamus Doyle, a enillodd Wobr Arloesedd y Flwyddyn yng Ngwobrau Rhagoriaeth mewn Tân ac Argyfwng 2023!

Roedd y Seremoni Wobrwyo, a gynhaliwyd gan 'Fire Magazine' yn San Steffan, yn gyfle i gydnabod a dathlu cyflawniadau gwasanaethau tân ac argyfwng ar hyd a lled y DU.



ERTHYGL LLAWN



GWOBR I GRŴP DIOGELWCH DIGWYDDIADAU LLANFAIR-YM-MUALLT

Cynhaliwyd Seremoni Wobrwyo Cymunedau Mwy Diogel cyntaf yng Ngwesty'r Village yn Abertawe ddydd Iau, Tachwedd 30ain a bu'n cyfle i ddathlu ac arddangos y gwaith gwych sydd ar y gweill ar hyd a lled Cymru i wneud cymunedau'n fwy diogel.

Mae Grŵp Diogelwch Digwyddiadau Llanfair-ym-Muallt yn dathlu ei llwyddiant yn ystod Gwobrau Cymunedau Mwy Diogel 2023.

ERTHYGL LLAWN





Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

#MwyNaDimOndTanau
#MoreThanJustFires



www.mawwfire.gov.uk

CYLCHGRAWN CALON TÂN - UCHAFBWYNTIAU 2023